

## **Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Dydd Iau 18 Tachwedd 2021 am 12 hanner dydd

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Zoom

### **1. Cyflwyniadau a Chroeso**

Gwnaeth y Cadeirydd, Peter Davies, groesawu aelodau i'r rhith-gyfarfod a hysbysu'r aelodau y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio.

Cyflwynodd y Cadeirydd y prif fwrdd rhithwir, sef Ruth Marks, Prif Weithredwr a Jonathan Evans, Trysorydd.

### **2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd a chofnodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan 3 aelod a Llywydd CGGC, Michael Sheen.

### **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd drwy zoom ar ddydd Iau 19 Tachwedd 2020**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

### **4. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol CGGC ar gyfer 2020/21**

Gwnaeth y Cadeirydd, ar ran y Bwrdd, ddiolch i'r Prif Weithredwr a'r tîm staff am eu harweinyddiaeth a'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Adroddiad Blynyddol i aelodau a oedd hefyd yn cynnwys fideo byr wedi'i animeiddio yn dangos rhai o uchafbwyntiau 2019 a dechrau 2020. Myfyriodd y Prif Weithredwr ar y newid cyflymder sylweddol yn ystod y flwyddyn, gan siarad am rai o'r effeithiau mwyaf y mae ein gwaith wedi'i chael.

Yn gryno:

- Gwnaeth CGGC droi eu sylw'n gyfan gwbl er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu'r wybodaeth, y cyngor a'r cyllid hanfodol i alluogi'r sector i ymateb i bandemig Covid-19.
- Trwy weithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs), bu modd i ni gefnogi ymatebion i bandemig Covid-19 a arweiniwyd gan wirfoddolwyr a chymunedau.
- Rydym ni, ynghyd â'r CVCs ar hyd a lled Cymru, yn ffurfio partneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW). Mae'n bartneriaeth allweddol i CGGC.  
Mae TSSW yn gweithredu ym mhob Awdurdod Lleol ledled Cymru. Gan weithio gyda'n gilydd fel TSSW, rydym yn cynnig set o wasanaethau craidd i'r sector ac mae'r bartneriaeth hon wedi mynd o nerth i nerth
- Rhan o uchelgais a rennir TSSW yw cael platfformau digidol effeithiol i gefnogi'r sector ar draws holl feysydd ein gwaith. Gwelwyd effeithiolrwydd platfform Gwirfoddoli Cymru yn yr ymateb i bandemig Covid-19.
- Roedd hi'n braf gallu diolch i wirfoddolwyr yn ystod yr wythnos gwirfoddolwyr a chawsom hefyd ymgyrch arbennig, Nid Gwobrau Elusennau Cymru. Cafwyd adborth rhagorol gan y sector i hyn oherwydd bu modd i ni gydnabod ac estyn ein gwerthfawrogiad i elusennau a grwpiau gwirfoddol ar hyd a lled y wlad.
- Gwnaethom gryfhau llais y sector gwirfoddol gyda'r Llywodraeth, gan sicrhau bod ein hymateb i bandemig Covid-19 yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi. O fanifesto ystyrlon gan y sector gwirfoddol i ddylanwadu ar etholiadau Llywodraeth Cymru, i adroddiad adfer ar ôl Covid-19 cadarn fel rhan o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC), i'n hargymhellion yn cael eu cynnwys yn adroddiad un o Bwyllgorau'r Senedd ar effaith pandemig Covid-19 ar y sector gwirfoddol.
- Gwnaethom barhau â'n gwaith i gefnogi Partneriaethau Natur Lleol a phrosiectau diwylliant a threftadaeth, a gwnaethom hefyd ddsbarthu cyllid drwy raglenni'r UE i gefnogi gwaith ar hyfforddiant a chyflogaeth.
- Gwnaethom wthio ein hunain i'r eithaf i sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed a'i gydnabod, a thrwy gydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid, ynghyd â defnyddio tystiolaeth a data, rydym wedi gallu cadarnhau gwerth ac effaith y sector gyda Llywodraeth Cymru, CLLLC, y GIG yng Nghymru a llawer o bartneriaid eraill.
- Gwnaethom hefyd ganolbwyntio gweithgarwch er mwyn cynyddu ein hymgysylltiad â Llywodraeth y DU. Yn benodol, roeddem

eisiau monitro'r datblygiadau o ran cyllid amgen yn lle'r cronfeydd UE rydym wedi bod yn eu cyrchu ar ran y sector ers blynyddoedd maith.

- Mae problemau byd-eang, yn enwedig y newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd mewn anghydraddoldebau ar frig agenda'r sector ac ein un ni.
- Ni fi erioed mwy o angen am y sector gwirfoddol, ac mae cyfleoedd a heriau o'n blaenau ni i gyd. Bydd CGGC yno i'n haelodau, ein partneriaid a'r sector.
- Hon yw'r flwyddyn lawn gyntaf o weithredu y tu allan i fframwaith sefydliadol yr UE, ond fel yr unig gorff anllwyodraethol yn y DU sydd hefyd yn Gorff Cyfryngol (IB), mae ein rôl i asesu ceisiadau a dosbarthu cronfeydd yr UE yn parhau. Rydym wedi sicrhau bod grantiau wedi cyrraedd y mudiadau hynny sy'n benderfynol o helpu pobl i gael hyfforddiant gwirfoddoli ac, yn y pen draw, cyflogaeth, sy'n profi gwerth y sector mewn termau economaidd.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'n holl bartneriaid, cyllidwyr, tîm staff CGGC, y bwrdd ymddiriedolwyr, ein His-lywyddion Margaret Thorne CBE DL a Tom Jones OBE a'r Llywydd Michael Sheen, sydd i gyd yn ymrwymedig i wasanaethu ein haelodau a'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Rhoddwyd diolch arbennig i'n haelodau am ymhél ag CGGC a gwneud yn siŵr y gallwn, gyda'n gilydd, wneud mwy o wahaniaeth a chael un llais cryf.

Cafodd fideo byr wedi'i animeiddio ei chwarae i amlygu mwy o'n gwaith, yn gwyno:

- £47 miliwn wedi'i ddsbarthu mewn grantiau a benthyciadau, sydd deirgwaith yn fwy na'r cyllid a ddsbarthwyd gan CGGC yn 2019/2020. Roedd £27.8 miliwn o hwn yn ymwneud â Covid-19.
- Wedi cyflwyno 85 o sesiynau ar-lein i fwy na 2,500 o gyfranogwyr
- Wedi cyhoeddi mwy na 50 o flogiau ac adnoddau canllaw ar Covid-19
- Trwy weithio gyda CVCs, gwnaethom helpu mwy o wirfoddolwyr i gamu ymlaen yn ddiogel yn ystod y pandemig gan ddefnyddio plattform TSSW Gwirfoddoli Cymru
- 14,019 o wirfoddolwyr wedi cofrestru ar wefan Gwirfoddoli Cymru
- 1,213 o gyfleoedd gwirfoddoli newydd wedi'u postio
- 23,291 o oriau gwirfoddoli wedi'u cofnodi
- Wedi gweithio gyda'r sector i lunio Maniffesto'r Sector Gwirfoddol ar gyfer 2021 cyn etholiadau'r Senedd
- Wedi hwyluso 15 o gyfarfodydd rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol

Derbyniodd yr aelodau Adroddiad Blynyddol 2020/21.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm staff a'r Prif Weithredwr am ei harweinyddiaeth drwy flwyddyn nas gwelwyd ei math o'r blaen.

## **5. Siaradwr gwadd, Sian Lewis, Prif Swyddog Gweithredol yr Urdd: Yr Urdd, Covid-19 a'r canmlwyddiant**

Croesawodd aelodau'r siaradwr gwadd, Sian Lewis.

Cyflwynodd Sian grynodedb o hanes a gwaith Urdd Gobaith Cymru. Sefydlwyd yr Urdd ym 1922 i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghymru ddysgu a chymdeithasu yn Gymraeg.

Mae gan yr Urdd 60,000 o aelodau (rhwng 8-25 oed) a 10,000 o wirfoddolwyr gyda gwerth economaidd o £31 miliwn yng Nghymru.

Mae'r cynllun Prentisiaeth yn cynnig cyfleoedd i bobl gael cyflogaeth, profiad ymarferol a chymwysterau proffesiynol.

Mae #Heddwch 2021 yn neges Heddwch ac Ewyllys Da flynyddol sy'n unigryw i Gymru. Mae'r neges i bobl ifanc ym mhob cwr o'r byd wedi cael ei lledaenu gan bobl ifanc Cymru bob blwyddyn ers 100 o flynyddoedd. Eleni, y thema yw cydraddoldeb i fenywod a merched ifanc. Mae gwleidyddion, mudiadau ac enwogion ar hyd a lled y byd yn cydnabod ac yn cefnogi'r neges. Mae Hilary Clinton wedi dangos ei chefnogaeth i'r neges ar Twitter!

Fis Mawrth diwethaf, cwblhaodd yr Urdd £1.2 miliwn o waith cyfalaf ar Glan-llyn Isa, Bala, canolfan newydd yr Urdd.

Ym mis Chwefror eleni, derbyniodd yr Urdd £1 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Nod y cyllid hwn oedd helpu i ailgodi'r mudiad a'i wasanaethau. Helpodd i sefydlogi nifer y staff, yr oeddent eisoes wedi'u colli yn sgil y pandemig. Helpodd y cyllid hwn i greu 60 o swyddi newydd ledled Cymru.

Ym mis Medi, helpodd yr Urdd i roi lloches i 21 o deuluoedd o Afghanistan yn y ganolfan yng Nghaerdydd.

Mae'r Urdd yn edrych ymlaen at ddathlu ei ganmlwyddiant yn 2022.

## 6. Cyflwyno'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2020/2021

Dymunai'r cadeirydd gydnabod rôl PwC i alluogi Jonathan Evans i ymgymryd â rôl Trysorydd CGGC.

Diolchodd y Trysorydd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a chroesawodd Colin Arnold fel Dirprwy Drysorydd a Will Wildridge a fydd yn cyfrannu at waith y Pwyllgor Cyllid. Diolch hefyd i'r Ymddiriedolwr, Helen White sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

Cyflwynodd y Trysorydd y cyfrifon blynyddol ar gyfer y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021 drwy neges fideo wedi'i recordio ymlaen llaw gydag Elen Notley, y Rheolwr Marchnata ac Aelodaeth gyda help ychydig o lego i ddod â'r ffigurau'n fyw!

Roedd y prif ffigurau yn cynnwys:

- Incwm
  - Gwelodd y flwyddyn hyd fis Mawrth 2021 gynnydd sylweddol mewn incwm i £51 miliwn, cynnydd o 140% a chynnydd o £30 miliwn uwchlaw incwm CGGC y flwyddyn gynt, sef £21.2 miliwn.
  - Roedd y rhan helaeth o'r incwm yn gyfyngedig. £47.5 miliwn o'r £51 miliwn gydag oddeutu £3.5 miliwn yn ymwneud ag incwm anghyfyngedig. Cynnydd o £2.7 miliwn i £3.5 miliwn.
- Gwariant:
  - Cydnabu'r Trysorydd y tîm staff gwefreiddiol a ymatebodd yn gyflym i gyfleoedd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn er mwyn dosbarthu cyllid mor gyflym â phosibl i'r sector.
  - Yn gyffredinol, mae'r £49.7 miliwn o wariant yn uwch na gwariant y flwyddyn gynt, sef £20.9 miliwn. O'r £51 miliwn, roedd oddeutu £49.7 miliwn yn wariant gan adael gwahaniaeth o £1.3 miliwn.
  - Aeth 85% o'r gwariant yn ôl ar ei union i'r sector.
- Cronfeydd wrth gefn:
  - £1.3 miliwn yw'r gwahaniaeth rhwng yr incwm a'r gwariant, ac mewn blwyddyn arferol, byddai hyn wedi bod yn ganlyniad anhygoel i CGGC. Mae'n dangos y gallu i ail-fuddsoddi yn y sector a'i gefnogi a'i gynnal dros y cyfnod mwy hirdymor.
  - Yn anffodus, yn ogystal â'r ymdrech fawr hon, mae CGGC wedi gweld rhai eitemau eithriadol yn dod drwy'r cyfrifon, a'r rhan fwyaf ohonynt yn eitemau y tu allan i'n rheolaeth o safbwynt cyfrifyddu. Yr un mwyaf arwyddocaol, fel y trafodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, yw'r un mewn perthynas â Chynllun

Pensiwn y Llywodraeth Leol. O ganlyniad i newidiadau yn y farchnad stoc a gwerth buddsoddiadau, mae diffyg actiwaraidd o £0.2 miliwn ychwanegol.

- Mae'r gwarged gweithredol ar gyfer y flwyddyn wedi dychwelyd i ddiffyg cyffredinol o £773 mil ar gyfer y flwyddyn, ac mae hynny ar ôl ystyried symudiadau eraill yn y gronfa ailbriso wrth gefn a buddsoddiadau.

- Grantiau:

- Mae CGGC wedi gweld 429 yn fwy o grantiau, 110% o gynnydd ar y flwyddyn gynt, felly mae oddeutu 870 o grantiau wedi mynd allan i'r sector, gyda'r cynnydd yng ngwerth y grantiau yn cynyddu'n gyffredinol o £37 mil i ychydig dros £53 mil. Mwy o grantiau sydd o werth uwch ar y cyfan, sy'n bwysig.

Dymunai'r Trysorydd gydnabod cyfraniad y timau staff at gyflawni'r allbwn hwn, gan ddiolch yn arbennig i'r tîm Cyllid dan arweiniad Tracey Marsh, y Cyfarwyddwr Cyllid.

Cydnabu'r Trysorydd waith Archwilwyr allanol CGGC, Bevan Buckland LLP, gan ddiolch yn arbennig i Alison Vickers a Johnathan Dight.

Nodwyd fod CGGC wedi derbyn barn archwilio ddiamedod.

Derbyniodd yr aelodau'r datganiad o'r cyfrifon ar gyfer 2020/21.

## 7. **Siaradwr gwadd, Ewan Hilton, Prif Swyddog Gweithredol Plattform, Addasu i newid wrth lynu at y cynllun – cyflenwi ar ddiben a strategaeth mewn argyfwng**

Croesawodd aelodau'r siaradwr gwadd, Ewan Hilton, o'r elusen iechyd meddwl a newid cymdeithasol Plattform, a elwid yn Gofal cyn hyn.

Rhannodd Ewan ei fyfyrnodau ar faterion a oedd yn ymwneud â chynaliadwyedd elusennau, amrywiaeth a newid systemau.

Pwysigrwydd cael gweledigaeth, diben, gwerthoedd a diwylliant clir a'r ddawn o beidio â gwybod (gallu negyddol)!

Gwnaeth Ewan grybwyll darpar gadeirydd newydd Plattform, Ubongabasi Obot, a oedd yn bresennol.

Roedd Plattform wedi derbyn cymorth ariannol drwy Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yn ystod y pandemig, a oedd wedi eu galluogi i

gyrraedd mwy o lawer o bobl a chynorthwyo mwy nag 8,000 o bobl y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig o ran cael mynediad at therapïau siarad i bobl a oedd yn cael anhawster. Diolch i CGGC a Llywodraeth Cymru.

## 8. Canlyniadau etholiad aelodau i Fwrdd CGGC (Penderfyniad 1)

Hysbysodd y cadeirydd yr aelodau fod CGGC wedi derbyn 15 o enwebiadau ar gyfer y 7 lle gwag ar y Bwrdd. Cyn symud i'r bleidlais, gwnaeth y Cadeirydd atgoffa'r rheini a oedd yn bresennol mai dim ond aelodau CGGC sy'n gallu cymeradwyo canlyniadau'r etholiad/bleidlais gydag 1 pleidlais i bob mudiad aelodaeth.

Cafodd y gwesteion nad ydynt â hawliau pleidleisio eu trosglwyddo i ystafell ar wahân i wylïo fideo byr tra roedd y pleidleisio ar droed.

Cyflwynodd y Cadeirydd ganlyniadau'r etholiad a'r bleidlais ar gyfer aelodau Bwrdd CGGC. Cafodd yr unigolion canlynol eu hethol yn ddiamod i'r 7 lle a oedd ar gael ar y Bwrdd.

Rocio Cifuentes	Prif Weithredwr, Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig, Cymru
Lindsay Cordery-Bruce	Prif Weithredwr, The Wallich
Rhian Davies	Prif Weithredwr, Anabledd Cymru
Menai Owen-Jones	Is-gadeirydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Joe Stockley	Swyddog Cyfathrebu, Diverse Cymru
Fran Targett	Cadeirydd, Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Aelod, Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Kate Young	Cyfarwyddwr, Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu

Gofynnwyd i aelodau deipio CYMERADWYO yn y swyddogaeth sgwrsio neu i leisio unrhyw wrthwynebiadau.

Ni leisiwyd unrhyw wrthwynebiadau a chymeradwywyd yr aelodau Penderfyniad 1 – ethol aelodau ar Fwrdd CGGC.

Dymunai'r Cadeirydd ddiolch i'r aelodau a oedd yn ymddeol, Helen White, Liz Girling a Sara Moseley.

\*\*\*\*\*

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i hysbysu'r aelodau y bydd yn ymddiswyddo o'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2022 ar ôl 11 o flynyddoedd ar y Bwrdd ac 8 mlynedd fel Cadeirydd.

Nodwyd y byddai CGGC yn dechrau ar broses recriwtio cadeirydd newydd tuag at ddiwedd mis Tachwedd 2021, a fydd yn cael ei rheoli gan Acorn Recruitment. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 14 Ionawr a bydd y cyfweiliadau yn cael eu cynnal ym mis Chwefror. Gobeithiwyd y byddai Cadeirydd cysgodol yn ei le rhywbryd yn ystod y gwanwyn er mwyn gallu gweithio ochr yn ochr â'r Cadeirydd presennol tan ddiwedd ei dymor.

Nododd y Cadeirydd bod cadeirio CGGC wedi bod yn anrhydedd, braint a chyfrifoldeb enfawr, ond uwchlaw popeth, yn hwyl!

Nodwyd y bydd Tracey Lewis, Ysgrifenyddes y Cwmni yn rheoli'r broses recriwtio.

## **9. Gwobr Bwrsariaeth Walter Dickie**

Mae CGGC yn falch o gefnogi'r Wobr Bwrsariaeth ac ail-lansiad y gronfa heddiw. Nodwyd fod y gronfa wedi dyfarnu 3 bwrsariaeth hyd at 2019.

Gwnaeth Phil Fiander, cyn Gyfarwyddwr Gweithrediadau CGGC cyn ei ymddeoliad, sydd bellach yn Gadeirydd Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector Llywodraeth Cymru, recordio neges fideo fer yn annog aelodau i ymgeisio a rhannu'r cyfle â phobl eraill.

## **10. Cau**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch arbennig i'r siaradwyr gwadd a diolchodd Rhodri Jones, Pennaeth Gwasanaethau Digidol ac Elen Notley, Rheolwr Marchnata ac Aelodaeth, am eu cymorth 'y tu ôl i'r llenni'.

Amlygodd y Cadeirydd y ciniawau rhwydweithio a oedd yn digwydd yn union ar ôl y cyfarfod a'r ddarlith flynyddol a oedd yn cael ei chyflwyno am 2pm gan Katherine Trebeck, cyd-sylfaenydd a Chynghorydd Eiriolaeth Strategol, Cynghair Economi Llesiant (WEAll) a chyd-sylfaenydd WEAll Scotland.



Dymunai'r Cadeirydd ddiolch i Fwrdd Ymddiriedolwyr CGGC, y Prif Weithredwyr a'r tîm staff am y gwaith gwych y maen nhw wedi'i wneud drwy gydol 2020.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (AGM) a daeth â'r cyfarfod i ben am 1:12pm.

DRAFT